# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

## Cofnodion (LC5(3)-16-09)

**Dyddiad: 14 Gorffennaf 2009**
**Amser: 9.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Lesley Griffiths AC
Darren Millar AC
Leanne Wood AC
Mick Bates AC

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Anna Daniel, Clerc
Olga Lewis, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Lisa Salkeld, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC.

### Eitem 2: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) – Cyfnod 1: Sesiwn dystiolaeth 1

LC5(3)-15-09(p1) – Y Mesur Arfaethedig

LC5(3)-15-09(p2) – Memorandwm Esboniadol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y canlynol:

Yr elfennau statudol o dan y polisïau codi tâl tecach ar gyfer gofal cartref a gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl eraill – y canllawiau diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol a rhestr o'r newidiadau a gyflwynwyd yn 2007;

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael taliadau uniongyrchol a sut y bydd y Mesur arfaethedig yn berthnasol iddynt;

Darn o'r dystiolaeth berthnasol o ymchwil LE Wales ynghylch y posibilrwydd y bydd cleientiaid newydd yn gwneud cais am wasanaethau o ganlyniad i gyflwyno'r Mesur arfaethedig ac effaith newidiadau demograffig ar y galw am wasanaethau.